

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn Roberts

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Mawrth 1af, 2016

Presennol: Alwyn Roberts (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (is gadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Heledd Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1544 Croesawyd pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau Karl Jones a Rhodri Jones.

1545 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1546 Derbyniwyd datganiadau buddiant oherwydd perthyn i fudiad ym mater 1553 (*dyrannu cyfraniadau cymunedol*) gan Catrin Roberts, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn Roberts (tri achos), Huw Antur Edwards (dau achos), Dewi Jones (dau achos). Hefyd derbyniwyd datganiad o fuddiant ym mater 1556 Cais Cynllunio NP5/71/461 oherwydd perthynas gan Huw P Roberts, Dewi Jones ac Alwyn M Roberts.

1548 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Chwefror 2il 2016.

1549 Materion y Clerc o'r cyfarfod diwethaf:

1536 Llifogydd: derbyniwyd neges gan Dafydd Elis-Thomas a'r ateb a gafodd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn mynegi eu bod yn bwriadu mynd i'r afael â gwaith modelu hydrolog a fydd yn ystyried y graean, fel y gallant ddeall a yw'r graean yn ei gyflwr presennol yn arwain at berygl. Byddant hefyd yn ymchwilio i'r pwynt y gallai'r graean wedyn ddylanwadu ar lefel dŵr Afon Lliw, gan beri i eiddo a'r A494 ddiodef llifogydd. Cytunwyd i ofyn am ganlyniad yr asesiad.

1539 Llythyr i'r Cyngor yn mynegi amryw o sylwadau:

- Cyflwynwyd ymateb Cyngor Gwynedd mai cyfrifoldeb tîrfeddiannwr yw clirio ffos.
- Anfonwyd at Gyngor Gwynedd am y broblem gyda'r golau stryd wrth bont Lliw.
- Derbyniwyd ymateb ar ddiwedd Tachwedd gan y Gweinidog Edwina Hart parthed hyd y cyfnod y mae'r golau 20mya wedi ei oleuo. Derbyniwyd llythyr ar y mater oddi wrth Cyngor Gwynedd hefyd.
- Ymwelodd Dŵr Cymru a'r safle lle mae pryder am garthffosiaeth a gofynnodd Dŵr Cymru am hysbysiad brys pan ddigwydd y gorlifo eto.

1541 Derbyniwyd diolch am gefnogaeth y Cyngor Cymuned i'r ymgyrch i gadw Swyddfa'r Dreth ar agor ym Mhorthmadog. Cytunwyd i anfon hefyd at y Gweinidogion sydd â chyfrifoldeb am y mater hwn.

1550 Adroddiad y Cyngorydd Sir Rhoddodd y Cyngorydd Alan Jones Evans adroddiad o'r is-bwyllgor biniau halen a dywedodd y byddai'n trafod ymhellach gyda'r Aelod Cabinet John Wyn Jones. Bydd cyfarfod yn ddiweddarach yn yr wythnos gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd ar wella'r amgylchfyd ym Maesypany. Adroddodd ar yr angen yng Nghyngor Gwynedd i wneud toriadau o £5miliwn oherwydd y lleihad sylweddol yn y grant i gynghorau o Lundain a Chaerdydd.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn Roberts

1551 Adroddiad o'r Pwyllgor ardal - Adroddodd y Clerc i Bethan Jones Parry roi cyflwyniad ar y cais i ddynodi Gwynedd yn Safle Treftadaeth Byd-eang. Os bydd y cais yn un llwyddiannus fe ddaw swyddi da a chyfleoedd ehangach i'r economi leol.

1552 Materion Eiddo'r Cyngor

- Cytunwyd i wneud y gwaith angenrheidiol a diolchwyd i Aled Richards am ei ofal o'r safle.
- Cytunwyd i ofyn am drwsio llechi yr un pryd a bydd gwaith ar y llochesi bws yn cael ei wneud.
- Trafodwyd y biniau halen yn y pentref a chytunwyd fod angen cadw llygad nad oes cam ddefnydd ohonynt.
- Cytunodd Alan Jones Evans i holi eto am yr addewid y byddai gwaith yn cael ei wneud yn lloches bws Y Lôn unwaith y byddai'r Adran Priffyrdd wedi cwblhau'r gwaith ar y cwlwert.
- Cytunodd Catrin Roberts i drefnu'r gwaith o ail osod giât maes parcio'r fynwent a thorri'r coed helyg. Cytunodd Clerc y Fynwent i alw Is-bwyllgor i drafod diogelwch y meini.

1553 Materion ariannol –

Ystyriwyd y sefyllfa ariannol a chytunwyd i drosglwyddo arian gwerthiant Cwt yr Hers i'r Cyfrif Cadw.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau am gymorth ariannol a gyflwynwyd gyda mantolen pob mudiad a chytunwyd i gyfrannu:

Clwb Pêl Droed Llanuwchllyn	£150
Neuadd Bentref	£1500
Teulu Gwalia	£50
Adran bentref Llanuwchllyn	£200
Llên y Llannau	£50
C FF I Glannau Tegid	£200
Eisteddfod y Llungwyn	£100
Canolfan Y Plase	£100
Eisteddfod Gylch yr Urdd	£100
CFFI Ffederasiwn Meirionnydd	£150
Cronfa Bws Mini Rhieni Ysgol y Berwyn	£100
Canolfan Henblas	£346.50
Theatr Bara Caws	£100
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Fflint	£55

Disgwylir mantolen Sioe Llanuwchllyn i ddod i law eto.

Cytunwyd i gyfrannu elw'r Noson Goffi at yr Ambiwlans Awyr.

1554 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned

Goryrru yn y pentref – derbyniwyd pryderon am ddiogelwch, yn arbennig yn ardal y Neuadd Bentref a'r ffordd heibio Pandy Mawr. Tynnwyd sylw'r Heddlu at y pryderon hyn.

Mynegwyd hefyd ofid am ddiogelwch plant bach yr Ysgol feithrin.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn Roberts

Cytunwyd i gysylltu gyda'r cwmnïau bysiau i fynegi consyrn (Alan Jones Evans a'r Clerc).

Cytunodd y Cyngorydd Alan Jones Evans i holi a fyddai'n bosib ymestyn y cyfyngiad 20mya bob cam trwy'r pentref.

1555 Partneriaeth Penllyn: Adroddodd y Cynrychiolwyr am y drafodaeth gyda Chyngor Gwynedd am ba wasanaethau eraill y gellid eu cynnig.

1556 Gohebiaeth:

- 1. Parc Cenedlaethol Eryri:** Cymeradwywyd Cais Cynllunio NP5/71/461 sef adeiladu estyniad ochr/cefn i 12 Maesypandy

Cymeradwywyd Cais Cynllunio NP5/71/462 sef Cynllun Trydan Dŵr Pant Clyd

Cymeradwywyd Cais Cynllunio NP5/71/463 sef Cynllun Trydan Dŵr Drws y Nant

- 2 Gwynedd:** Derbyniodd Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Alan Jones Evans a'r Clerc y gwahoddiad i drafod y rhestr toriadau a datgan diddordeb cymryd cyfrifoldeb am wasanaethau yn Neuadd Buddug 14/3/16.

Derbyniwyd rhaglen waith mis Chwefror a Mawrth.

- 3 Un Llais Cymru:** Cytunwyd i ymaelodi am y flwyddyn 2016-17.

Derbyniwyd gwybodaeth am raddfeydd costau a threuliau Cynghorwyr.

- 4. Heddlu:** Derbyniwyd gwybodaeth am gysylltiadau lleol.

- 5. Eraill:** Derbyniwyd gwybodaeth am Ras yr Iaith sydd yn digwydd ar 6/7/16. Nodwyd derbyn gwybodaeth fasnachol am ben-blwydd y Frenhines

1557 Noson Goffi - cytunodd Arwel Lloyd Jones i geisio cael adloniant ar gyfer nos Wener ym mis Hydref.

1558 Y Groes Wen – mae'r trefniadau mewn llaw i gofio canmlwyddiant y diweddar Robert J Evans, a fu farw o'i anafiadau yn dilyn y Rhyfel Mawr, ac i goffau aberth milwyr eraill y plwyf yn y Rhyfel.